

Cofnodion cyfarfod y Fforwm Cymunedau Ffydd 03 Mehefin 2020

Presennol:

Aled Edwards	Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Gethin Rhys	Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Rheinallt Thomas	Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru
Christine Abbas	Ffydd Baha'i
Vivian Bartlett	Ffydd Baha'i
Sakti Guha	Cyngor Hindwiaid Cymru
Radhika Kadaba	Cyngor Hindwiaid Cymru
George Stack	Archesgob Caerdydd, yr Eglwys Gatholig
Sian Rees	Y Gynghrair Efengylaidd
Abdul-Azim Ahmed	Cyngor Mwslimiaid Cymru
Kate McColgan	Cadeirydd Cyngor Rhyng-ffydd Cymru
John Davies	Archesgob Cymru, yr Eglwys yng Nghymru
Meraj Hussein	Cyngor Mwslimiaid Cymru
Joga Singh	Cyngor Sikhiaid Cymru
Gurmit Singh Randhawa	Cyngor Sikhiaid Cymru
Laurence Kahn	Cyngor Cynrychioli Iddewon De Cymru
Melody Odey	Cyngor Cynrychioli Iddewon De Cymru

Ymddiheuriadau:

Nor'dzin Pamo	Cynrychiolydd Bwdhaidd
Radhika Kadaba	Cyngor Hindwiaid Cymru

• **Croeso a Chyflwyniadau**

Croesawodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip y mynychwyr a diolchodd iddynt am ddod, gan gydnabod bod nifer dda yn bresennol. Pwysleisiodd bod cyngor ac arweiniad y Fforwm yn bwysicach nag erioed.

Cydnabu'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip farwolaeth drasig George Floyd yn yr Unol Daleithiau yn ddiweddar a nododd waith pwysig y Grŵp Cynghori BAME dan gadeiryddiaeth y Barnwr Ray Singh a Heather Payne.

Hysbysodd y Dirprwy Weinidog y Fforwm am lansiad yr offeryn asesu risg Covid 19:

- Mae'r offeryn wedi cael ei gyflwyno i'r GIG a gofal cymdeithasol. Mae angen i bob Bwrdd Iechyd ei ddefnyddio, oherwydd yr effaith anghymesur ar bobl BAME.
- Mae'r offeryn yn datblygu wrth i ni ddysgu o'r ymatebion. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol sylfaenol yn sylweddol. Rhaid inni fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol yng Nghymru drwyddi draw.
- Mae'r Fforwm Cymunedau Ffydd yn ymwybodol o'r materion hyn, gan rannu profiadau yn ystod Ramadan. Mae ymgysylltu rhyng-ffydd wedi bod yn ysbrydoledig.

Cam 1 – Aelodau'r fforwm i ystyried yr offeryn asesu risg a'r Datganiad Ysgrifenedig cysylltiedig

Dywedodd y Dirprwy Weinidog bod angen symud ymlaen nawr gyda'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yr ymrwymodd iddo ym mis Mawrth. Dywedodd fod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi datganiad ar effaith Covid 19 ar bobl BAME yng Nghymru.

- **Eitem 1: Diweddariad ar y Grŵp Cynghori ar Iechyd BAME Covid 19 a'r is-grwpiau**

Gwahoddodd yr Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip y Grŵp Cynghori BAME Covid 19 a'r is-bwyllgorau i ddiweddarau Fforwm Ffydd Cymru.

Amlinellodd y Barnwr Ray Singh (RS) waith y Grŵp Cynghori BAME Covid 19:

- Fe'i cychwynnwyd ar ôl i'r Barnwr Singh a chydweithwyr meddygol a phroffesiynol eraill ysgrifennu at y Prif Weinidog, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip a'r Prif Swyddog Meddygol ynghylch effaith anghymesur CV19 ar y cymunedau BAME.
- Estynnodd y Prif Weinidog wahoddiad iddo gyd-gadeirio'r grŵp gyda Dr Heather Payne, un o swyddogion Llywodraeth Cymru.
- Mae'r grŵp yn canolbwyntio ar y risg uwch ac anghymesur i gymunedau BAME o safbwynt Iechyd Covid 19.
- Mae aelodaeth y grŵp a'r is-grwpiau yn gynhwysol ac o amrywiol gefndiroedd.
- Mae Cylch Gorchwyl y grŵp yn canolbwyntio ar nodi camau gweithredu i liniaru a lleihau risgiau i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

Amlinellodd yr Athro Keshav Senghal yr offeryn asesu risg sydd eisoes wedi'i gyflwyno. Dywedodd:

- Gellir ei ddefnyddio mewn 2 funud ac mae'n syml i'w ddilyn
- Nesaf gellir ei gyflwyno i'r heddlu a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus
- Rhannodd yr Athro Senghal ryngwyneb ar y we ar gyfer yr Offeryn Asesu Risg a ddylai fod yn barod i'w gyflwyno'n ehangach cyn hir.
- Mae tystiolaeth newydd yn cael ei hadolygu'n gyson, ond nid oes dim hyd yn hyn wedi ysgogi diwygiadau i'r offeryn.

Rhannodd y Barnwr Singh waith y grŵp a gadeiriwyd gan yr Athro Ogbonna.

- Mae'n canolbwyntio ar ffactorau economaidd-gymdeithasol a mesurau tymor canolig-hir i fynd i'r afael â nhw.
- Un canfyddiad allweddol yw diffyg argaeledd data ethnigrwydd sy'n ei gwneud yn anodd dod o hyd i atebion.
- Mae'r Barnwr Singh yn annog arweinwyr cymunedol i ddod ynghyd a chanolbwyntio ar sicrhau newidiadau y mae dirfawr eu hangen drwy gynnig syniadau cadarnhaol.
- Mae Covid 19 wedi amlygu llawer o wirioneddau ond mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru yn gwrando.

Dywedodd Dr Heather Payne bod y grŵp yn ceisio sefydlu llinellau cyfathrebu effeithiol a bydd yn llunio adroddiad yn ystod yr wythnos neu ddwy nesaf.

Soniodd aelodau'r Fforwm Cymunedau Ffydd am Citizens UK a menter a lansiwyd gan Gynghrair Efengylaidd y DU yn gweithio gydag eglwysi BAME, gan annog y grŵp cynghori i ymgysylltu â'r sefydliadau hyn.

Ymunodd y Prif Weinidog â'r cyfarfod ac fe ddywedodd bod y grŵp cynghori ar BAME a'r offeryn asesu risg newydd gael eu trafod yn y Senedd, gan nodi diddordeb ASau yn y gwaith hwn.

Pwysleisiodd y Barnwr Singh bwysigrwydd cyfathrebu wrth edrych ar ffactorau economaidd-gymdeithasol sy'n effeithio ar gymunedau BAME a sut i'w gwyrddio.

Pwysleisiodd y Dirprwy Weinidog bwysigrwydd sylfaenol iechyd y cyhoedd ac addysg iechyd.

- **Eitem 2: Datgloi manau addoli (adolygu'r ymgynghoriad ac ystyried y protocol drafft)**

Cyflwynodd y Dirprwy Weinidog y pwnc o ail-agor adeiladau yn raddol yng Nghymru, a diolchodd i'r aelodau am eu harweiniad a'u gwaith wrth bennu beth allai ddigwydd a phryd.

- Dechrau'r sgwrs oedd cynllun y Prif Weinidog ar gyfer dod allan o'r pandemig, a gyhoeddwyd ar 15 Mai.
- Mae'r Prif Weinidog wedi gofyn i bob sector gyd-gynhyrchu protocolau gyda'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf.
- Siaradodd nifer o'r aelodau â swyddogion y diwrnod y lansiodd y cynllun.
- Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ar sail rhyng-ffydd. Bydd y trafodaethau a'r cyflwyniadau ysgrifenedig a ddarperir gan y Fforwm yn cyfrannu at yr adolygiad nesaf o'r cyfyngiadau.
 - o Darparwyd peth eglurder ar y dull o ddatgloi yng nghyfarfod diwethaf y Fforwm.
 - o Ar 22 Mai gwahoddwyd adborth gennym.
 - o Daeth ymatebion ysgrifenedig yn dilyn hynny ac ar ddydd Llun cyfarfu grŵp gorchwyl a gorffen.
 - o Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen yn gweithio'n gyflym ar brotocol drafft ar gyfer ail-agor yn raddol.

Gofynnodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i Aled Edwards (AE) roi rhagor o wybodaeth fel aelod o'r grŵp gorchwyl a gorffen. Diolchodd AE i'r Dirprwy Weinidog am y cyflwyniad ac fe atgoffodd y grŵp am y broses i gyrraedd y pwynt hwn.

- Lluniwyd methodoleg y grŵp gorchwyl a gorffen yn ôl methodoleg y grŵp cynghori BAME.
- Roedd hyn yn golygu casglu mewnbyn, rhannu drafft yna gwahodd partneriaid i gynnig eu harbenigedd a phryderon mewn dogfen fyw. Mae angen gwneud gwaith i nodi materion ac egwyddorion penodol.
- Bydd y protocol yn dangos y ffordd ac yn cyd-fynd â'r system goleuadau traffig yng nghynllun y Prif Weinidog.
- Roedd y prif bwyntiau'n cynnwys pwysigrwydd cydweithredu, cydlyniant cymdeithasol, diogelwch personol a chymunedol, a'r angen am arweiniad gan Lywodraeth Cymru ar yr hyn sy'n briodol ar rai pwyntiau.
- Mae'r gallu i reoli a threfnu lleoliadau yn her allweddol, mae'r ddogfen gychwynnol wedi'i pharatoi a gellir adeiladu arni.

Rhannodd Eleri Davies ddrafft cynnar o'r protocol ar gyfer adborth.

- Mae'r swyddogion wedi cael eu harwain gan sylwadau ynghylch blaenoriaethau'r grŵp gorchwyl a gorffen.
 - o Caiff y manylion yn y protocol eu cydbwysu â hyblygrwydd fel y gall pob grŵp ffydd symud ymlaen gyda'i gilydd.
- Mae bylchau yn cynnwys canllawiau technegol nad ydynt ar gael eto.
 - o Mae angen adborth gan gydweithwyr eraill yn LIC sydd ag arbenigedd mewn meysydd gwahanol.

- Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen wedi gweld hwn dros nos, bu awydd clir y dylai'r protocol gael ei arwain gan wyddoniaeth, sy'n allweddol i'r ffordd y mae arweinwyr yn cyfathrebu â chymunedau.
- Daeth rhai sylwadau i law gan eglwysi a chapeli ynghylch pryderon bod cadw mannau addoli ar gau yn anghymesur, gan sôn am erthygl 9 y Ddeddf Hawliau Dynol.

Trosoglwyddodd Eleri Davies i Hannah Fisher, a roddodd grynodedb o'r adborth i'r protocol hyd yn hyn, gan nodi bod swyddogion o adrannau eraill Llywodraeth Cymru yn bresennol i wrando ar adborth o'r Fforwm yn uniongyrchol.

- Bydd y geiriad yn cael ei fireinio i adlewyrchu gwahanol anghenion, mwy o fanylion am lanhau ac egluro mesurau ymbellhau cymdeithasol, paratoi bwyd, ymwreiddio'r system Profi, Olrhain, Diogelu.
- Bydd swyddogion yn ystyried yr adborth a roddwyd i'r grŵp gorchwyl a gorffen ar wahanu gweithgareddau crefyddol oddi wrth weithgareddau ymgysylltu cymdeithasol/cymunedol.
- Mae swyddogion LIC mewn cysylltiad â thasglu Llywodraeth y DU, cydweithwyr yn yr Alban ac Iwerddon.
- Mae agor siopau nad ydynt yn hanfodol pan fydd mannau addoli ar gau yn teimlo'n annheg i lawer.

Diolchodd y Dirprwy Weinidog i'r grŵp gorchwyl a gorffen a gofynnodd am ymatebion (wedi'u crynhoi isod).

- Cynigiwyd cyfnod prawf i arfer mesurau newydd, gan ymbellhau'n gymdeithasol a chyfyngu ar niferoedd, gan newid arferion oes i nifer ynghylch sut i weddio ac ati.
 - o Cytunodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip fod y cyfnod profi hwn yn bwysig.
- Soniwyd am y pwysau i agor mannau addoli yng Nghymru ar gyfer gweddi breifat.
 - o Mae'r Eglwys Gatholig wedi paratoi pecyn cymorth lechyd a Diogelwch ar gyfer pob gweithgaredd.
 - o Byddai golau oren yn cael ei groesawu i eglwysi sy'n bodloni meini prawf yn y pecyn cymorth lechyd a Diogelwch.
- Rhaid i fesurau iechyd y cyhoedd fod o'r pwys mwyaf. Dim gweddïau arferol nes golau gwyrdd llawn.
- Nodwyd yr effeithiau ar iechyd meddwl cynulleidfaoedd, ac argymhellwyd y dylid dychwelyd yn raddol.
 - o Nododd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip fod lechyd Cyhoeddus Cymru wedi nodi'r materion hyn ym mhob cymuned, gan gynnwys cymunedau BAME
- Anogwyd cysylltiadau trawsffiniol, mae cysondeb yn bwysig os yw'n bosibl er mwyn osgoi dryswch
 - o Mae'r Prif Weinidog wedi ceisio mabwysiadu ymagwedd pedair gwlad tuag at leddfyr cyfyngiadau
 - o Rydyn ni wedi cyrraedd cam 2 o'r adolygiad o'r cyfyngiadau, mae cyngor y Prif Swyddog Meddygol a Sage yn hollbwysig
 - o Mae'n rhaid diogelu gwirfoddolwyr, llawer mewn categorïau risg uchel.
- Soniwyd am gymorth cymdeithasol a ddarperir gan addoldai yn ogystal â gweini bwyd.
- Wrth i ysgolion agor, dylid ystyried cyfarfodydd grwpiau mewn adeiladau eglwysig (meithrinfeydd ac ati).
- Mae cynnwys priodasau yn y cam oren yn cael ei groesawu ar gyfer traddodiadau lle na chaniateir cyd-fyw.
 - o Gofynnwyd am ganllawiau ar faint o bobl sy'n gallu mynychu priodasau

- Mae angen ystyriaeth/arweiniad ar gyfer eglwysi BAME a Pentecostaidd sy'n cyfarfod am nifer o oriau.

Dywedodd y Prif Weinidog ei fod wedi bod yn gwranddo'n astud ar y drafodaeth a'i fod am gynnig rhywfaint o eglurder i'r Fforwm fod Llywodraeth Cymru yn awyddus yn y cylch adolygu 3 wythnos hwn i ystyried camau cynnar i ail-agor addoldai'n ddiogel er mwyn caniatáu cyfleoedd rheoledig ar gyfer gweddïo preifat.

- Mae cynlluniau yn cael eu datblygu yn yr Alban a Lloegr, a chaniateir hynny yng Ngogledd Iwerddon
- Rydym am roi caniatâd i grwpiau ffydd gymryd y camau cyntaf dan reolau rydym yn eu creu gyda'n gilydd. Fodd bynnag, ni fydd rheidrwydd i wneud hyn.

Dywedodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip y bydd y protocol yn cael ei ddatblygu yn ystod y pythefnos nesaf, cyn yr adolygiad nesaf.

Dywedodd yr Athro Senghal, am y tro:

- Ei bod yn ddefnyddiol gwahanu gweithgarwch cymunedol a chrefyddol.
- Byddai'n ddoeth caniatáu gweddïo preifat drwy system apwyntiadau. Gwasanaethau ar-lein yn unig.
- Ni ddylid cynllunio digwyddiadau cymunedol mawr ac ni ddylid gweini bwyd.

Nododd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip fod tipyn o gonsensws, diolch i'r berthynas dda.

- Golau oren clir o du'r Prif Weinidog.
- Bydd swyddogion yn mynd â'r grŵp gorchwyl a gorffen ymlaen.
- Mae arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bwysig i'r grŵp gorchwyl a gorffen, ac fe ddywedodd pawb mai dyma ddylai arwain y canllawiau,
- Bydd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn sicrhau bod adborth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Prif Swyddog Meddygol yn cael ei drosglwyddo i'r Fforwm wrth iddo gyrraedd.

• Eitem 3: Cofio a choffau

Nododd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip bwysigrwydd ystyried sut rydym yn cofio ac yn coffau'r rhai yr ydym yn eu colli i Covid 19, ac ystyried teyrngedau a chymorth mewn profedigaeth. Diolchodd i Archesgob Cymru am ddwyn ei sylw at y prosiect Remember Me yn St Paul ac fe eglurodd beth oedd y prosiect.

Eglurodd Archesgob Cymru ei fod wedi rhannu'r prosiect Remember Me gyda LIC oherwydd gellid colli'r profiad Cymreig pe bai'n cael ei gymysgu â phrosiect y DG. Awgrymodd y byddai'n gadarnhaol i hyrwyddo cysylltiadau rhyng-ffydd yng Cymru.

Gan fod amser yn brin a bod angen trafodaeth bellach, gofynnodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i Aelodau'r Fforwm ysgrifennu at swyddogion gydag unrhyw sylwadau ychwanegol ac awgrymodd y dylai'r Fforwm gyfarfod eto yn ystod yr wythnosau nesaf.

- Cloi

Cam gweithredu – aelodau'r fforwm i ystyried yr offeryn asesu risg a'r Datganiad Ysgrifenedig cysylltiedig